OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3054 (Cy.292)

# NYRSYS, BYDWRAGEDD AC YMWELWYR IECHYD, CYMRU

## Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) (Diwygio) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *26 Tachwedd 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Rhagfyr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(6), 16(3), 22(1) a (2)(b), 25, 34(1), 35 a 118(5) — (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i asiantaethau nyrsys yng Nghymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) (Diwygio) 2003**

**2.** Diwygir Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003(**2**) fel a ganlyn:—

yn rheoliad 12(1) (Ffitrwydd y nyrsys sy'n cael eu cyflenwi gan asiantaeth) yn lle isbaragraff (ch) rhodder y canlynol:—

"(ch) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael amdano/amdani —

(i) ac eithrio lle mae paragraff (3) yn gymwys, mewn perthynas â phob mater a bennir ym mharagraffau 1 i 4 a 6 i 13 o Atodlen 3;

(ii) lle mae paragraff (3) yn gymwys, mewn perthynas â phob mater a bennir ym mharagraffau 1 i 3 a 5 i 13 o Atodlen 3."

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn adran 121(1) fel y'i darllenir gydag adran 5(1)(b), mewn perthynas â Chymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) O.S. 2003/2527 (Cy.242).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

26 Tachwedd 2003

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) (Diwygio) 2003 ("Rheoliadau 2003").

Mae Rheoliad 12 o Reoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r person sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas ag asiantaeth nyrsys sicrhau na fydd unrhyw nyrs yn cael ei chyflenwi gan yr asiantaeth oni bai ei bod yn "ffit". Un o ofynion ffitrwydd yw bod yn rhaid i wybodaeth a dogfennau penodol fod ar gael mewn perthynas â'r nyrsys hyn. Ymhlith y dogfennau y mae'n rhaid iddynt fod ar gael y mae tystysgrifau record droseddol a roddir naill ai o dan adran 113 neu 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997 ac adroddiad o wiriad gan yr heddlu.

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2003 yn darparu nad oes rhaid i wiriad gan yr heddlu fod ar gael ond lle bydd cais wedi'i wneud am dystysgrif o dan Ddeddf yr Heddlu ond nad yw'r dystysgrif wedi'i rhoi.